AH

# DIENYDDIAD
# CRIPPEN

**Dydd Mercher, Chwefror 23, 1910,**

Am lofruddio a darnio ei wraig, a'i chladdu yn seler ei dy.

———o———

Gorphenaf 17eg, 1910, galwodd Inspector Dew gydag un o'r enw Dr. Crippen, 39, Hilldrop Crescent, Llundain, i wneyd holiadau ynghylch ei wraig, yr hon a ddywedai ydoedd wedi marw yn yr America, gwirionedd yr hyn amheuid gan ei chyfeillion. Addefodd Crippen nad ydoedd wedi marw ond ei bod wedi ei adael ar ol cweryl.

Pan alwodd y swyddog yn y ty wedi hyny cafwyd fod Crippen wedi ffoi, ac wedi cymeryd i'w ganlyn lodes ieuangc o'r enw

**ETHEL LE NEVE,**

ydoedd wedi bod yn ei wasanaeth am rai blynyddau fel *typist*, a'r hon a ddywedai wrth ei theulu iddi ei briodi ychydig wythnosau yn ol. Hwyliasant am Quebec yn y *Montrose* fel tad a mab, ond yn fuan iawn amheuwyd hwy gan y capten, yr hwn trwy y *Wireless Telegraph* a hysbysodd yr awdurdodau yn Llundain fod Crippen a'r ferch ieuangc ar fwrdd ei lestr.

Anfonwyd Inspector Dew i Canada i'w cyfarfod, a chymerwyd y ddau i'r ddalfa cyn iddynt lanio.

Yn yr Old Bailey, Dydd Sadwrn, Tach. 22, ar ol ol pum' diwrnod o dreial, dygwyd rheithfarn o Lofruddiaeth Gwirfoddol, a dedfrydwyd Crippen i farwolaeth. **Dienyddiwyd ef Tachwedd 23ain.**

Ar oer foreu yn mis Tachwedd,
 Dygwyd Crippen, er ei loes,
I'r dienyddle, man arswydus,
 I ddiweddu cwrs ei oes;

Ar amrantiad, o lawn iechyd
  Hyrddiwyd ef i arall fyd,
Pâr 'rolygfa i ni ddychryn,
  Gwna i'r difrif fod yn fud.

Dial ddeil y drwg weithredwr,
  Cosb am bechod sydd yn siwr;
'Rhwn â'r fflam ddiystyr chwery
  Ca ei hun yn chwerw ŵr;
Dyna'r wers sy'n eglur heddyw
  I'r symylaf yn y tir,
Hefyd nerthol fraich y Gyfraith—
  Cyrhaedd wna dros bellder hir.

Du lofruddiaeth wnaed yn Llundain,
  Erchyll y trychineb wnaed,
Adyn ciaidd yn lladd dynes,—
  Trochi 'i ddwylaw yn ei gwaed,
Yna'n claddu'r corph haciedig
  Yn y seler dan y tŷ,
Arswyd oedd yn gafael ynom
  At ysgelder oedd mor hy'.

Crippen oedd y dyn gyhuddid
  O gyflawni y drwg waith,
Roedd ei enw ar bob tafod,
  Daeth yn hysbys trwy'r byd maith;
Brodor o'r Amerig ydoedd,
  Er yn Llundain er ys talm,
Ac fe hona fod yn feddyg—
  Ddyga i'r dioddefwr falm.

'Roedd ei wraig yn eithaf hysbys
  I drigolion y dref fawr,
Cyhoedd ydoedd gynt fel *actress*,—
  Mynych ddringa'r esgynlawr;
Fel "Belle Elmore" ar y llwyfan
  Roedd yn hysbys i'r holl fyd,

Ac fe wnai ei rhan yn fedrus,—
  Ar ei gwaith hi rodda'i phryd.

Yn mis Chwefror, d'wedai Crippen
  I'w chyfeillion—nifer fawr,—
Iddi fyned i'r Taleithau
  Ac i'w hiechyd dori i lawr.
Yn mhen ennyd taenai'r stori
  Iddo dderbyn newydd gwaeth,
Sef mai marw wnaeth ei briod
  Ar yr orllewinol draeth.

Du amheuaeth a gyfododd
  Yn meddyliau llawer un,
Am gywirdeb hyn o hanes,
  A drwg dybio wnaent y dyn
Yntau'n feiddgar drodd at arall—
  Lodes ieuangc yn ei dŷ,—
A rhowd allan iddynt briodi,
  'Rhyn wnai'r amheu yn fwy cry.

Parodd y drwg-dybiaeth yma
  I'r heddgeidwaid wneyd eu rhan;
Aed i'w dŷ i wneyd ymchwiliad,
  Llygaid craff archwiliai'r fan:
Yntau, wedi dychryn trwyddo,
  Gyda'r llances aeth ar ffo,
Dianc wnaethant am eu heinioes,
  Er mawr gyffro yn y fro.

Hyn sbardunodd fwy'r heddgeidwaid,—
  Chwilio wnaethant trwy y ty,
Nes o'r diwedd yn y seler
  D'od o hyd i brofion cry'
O greulondeb brwnt, dychrynllyd,
  Am lofruddiaeth hyll a chas,
Corph y ddynes wedi ei ddarnio
  Gan ryw adyn drwg, di-ras.

Parodd y manylion roddwyd
  Am gieidd-dra'r weithred ddu,
Gvffro trwy pob ran o'r deyrnas,
  Dig enynodd ar bob tu ;
Dwfn a dwys oedd y dymuniad
  Eglur ydoedd trwy y wlad,
Nad yn glir yr elai'r adyn
  Ydoedd euog o'r fath frad.

Pan yr ofnem iddo ddianc,
  A chael cyrhaedd ddiogel fan,
Neges ddaeth ar hyd y cefnfor
  Mai gwahanol fydda'i ran ;
Gyda'r pellybr di-wifren
  O'r *Montrose* daeth fflachiad clir
Nad yn rhyddion gwelai'r ddeuddyn
  Man eu cyrchfa,—Amerig dir.

Yn lle cyrhaedd dinas noddfa,
  Yn lle tirio arall lan,
Rhwystr safai yn y swyddog,—
  Cyffion syrthiai ar ei ran ;
Unwaith eto dros y cefnfor,
  Dygwyd ef i Brydain Fawr,
Yma i atteb y cyhuddiad—
  Mor ofnadwy oedd yr awr !

Yn nhref Llundain, yn mis Hydref,
  Safai'i dreial am ddu waith,
Ac er medr amddiffyniad
  Barodd lawer oriau maith,
Dygwyd rheithfarn yn ei erbyn
  Roddodd derfyn ar ei oes,
Gwarth y grogbren a'i gwyneba—
  Adfydus oedd ei olaf loes.